**Datganiad ar y cyd gan arweinwyr grwpiau Llafur, Plaid Cymru ac Annibynnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.**

Gwaetha'r modd, rydyn ni'n gweld nifer gynyddol o gynghorwyr ac ymgeiswyr yn cael eu cam-drin, eu bygwth a'u dychryn.

Yn ogystal â bod yn gwbl annerbyniol, mae'r ymddygiad hwn yn tanseilio egwyddorion rhyddid barn, ymgysylltu democrataidd a thrafod.

Rydyn ni'n ymdrechu i drin pawb â chwrteisi, caredigrwydd a pharch ac, fel arweinwyr ein grwpiau gwleidyddol, rydyn ni'n sefyll gyda'n gilydd i alw am roi diwedd ar gam-drin, brawychu ac aflonyddu o unrhyw fath.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth i ni gychwyn ar y cyfnod allweddol cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai.

Rydyn ni'n addo cymryd rhan mewn ymgyrch etholiadol deg sy'n seiliedig ar ymgyrchu cadarnhaol a theilyngdod, yn hytrach nag ymosodiadau personol a difenwol yn erbyn unigolion.

Rydyn ni'n annog pob aelod etholedig ac ymgeisydd yn yr etholiad sydd ar y gweill i wneud yr un peth. Yn ogystal, byddwn ni'n amlygu'n gyhoeddus unrhyw ymddygiad amhriodol o'r fath ac ni fydd unrhyw oddefgarwch o ran cam-drin.

Mae gan bob un ohonom ni'r hawl i gyflawni ein dyletswyddau dinesig heb ofni ymosodiad neu gamdriniaeth. Mae unrhyw ymddygiad amhriodol – naill ai ar lafar, yn gorfforol neu'n ysgrifenedig ar y cyfryngau cymdeithasol – yn gwbl annerbyniol, a bydd camau'n cael eu cymryd os bydd angen.

Byddwch yn garedig ac yn deg ym mhopeth rydych chi'n ei ddweud ac yn ei wneud.

Y Cynghorydd Philippa Marsden, Arweinydd Grŵp Llafur

Y Cynghorydd Colin Mann, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru

Y Cynghorydd Kevin Etheridge, Arweinydd Grŵp Annibynnol

  